

NEWYDDLLEN

Diwygio Etholiadol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhifyn 16

Gorffennaf 2021

Archwiliad o Grant Cymorth Diwygio Etholiadol 2019/20 a 2020/21

Gofynnwyd i chi mewn e-bost dyddiedig 2 Gorffennaf i gwblhau ffurflen er mwyn i ni allu archwilio'r cynllun grant.

A fyddech cystal â chyflwyno'r wybodaeth hon i flwch post y Tîm Etholiadau cyn gynted â phosibl os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.

Oes gennych chi ymholiad neu bwnc yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano? Rhowch wybod i ni os oes rhywbeth yr hoffech i ni ei gynnwys yn y cylchlythyr nesaf. Cysylltwch â ni yn Etholiadau.elections@gov.wales

Ymgynghoriad ar y newidiadau i Reolau Etholiadau Lleol yng Nghymru

Ar 2 Awst, bydd Llywodraeth Cymru yn lansio ymgynghoriad ar Reolau Drafft Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 drafft.

Mae'r Rheolau drafft hyn yn gwneud darpariaeth newydd ac yn diweddarau, cydgrynhoi ac ail-ddatgan y gyfraith ynghylch cynnal etholiadau prif gynghorau a chynghorau cymuned. Bwriedir i'r Rheolau drafft hefyd wneud y gyfraith yn fwy hygyrch, yn enwedig drwy ddefnyddio iaith gliriach ac, am y tro cyntaf, caiff ei hysgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r ddwy set o reolau ar gyfer Prif Ardaloedd a Chymunedau yn cael eu hailwneud i baratoi ar gyfer yr etholiadau lleol yng Nghymru yn 2022 a byddant yn cael eu hanfon allan i ymgynghori arnynt cyn bo hir.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn arbenigwyr mewn gweinyddiaeth etholiadol i helpu i lunio'r darnau pwysig hyn o ddeddfwriaeth a sicrhau bod y rheolau'n ymarferol o safbwynt ymarferol.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, byddwn yn cynnal digwyddiad ymgysylltu digidol i randdeiliaid drafod y rheolau drafft yn fanwl; bydd gwahoddiadau i'r digwyddiad yn cael eu cyhoeddi'n nes at yr amser.

Ar ôl ymgynghori, bydd drafft terfynol y rheolau yn cael ei osod a'i ystyried gan y Senedd gyda'r bwriad o ddod i rym erbyn diwedd mis Tachwedd 2021.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 24 Medi. Mae manylion am sut i ymateb wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori a fydd yn cael ei anfon atoch yn uniongyrchol o 2 Awst.